

FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG

Cofnodion y cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael [yma](#)

Mae recordiad y Cyfarfod ar gael [yma](#)

Yn bresennol: Y Cynghorydd E. Williams (Cadeirydd), Mr F. Coleman, Mrs. S. Davies, Mr. I. Fraser, Mr. S. Gaffney, Mr J. Herbert, Mrs K. Lucas, Mr H.S. McMillan a Mr. G. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mr. G.J. Davies, Mr. S. Pickering, Mr. G. Teague, Mr. P. Chappell, Ms.M. Sims a Mrs. S. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd -

Cynigiodd y Cadeirydd ddiolch a gwerthfawrogiad i Mr. G. Teague, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus a oedd yn gadael cyflogaeth Cyngor Bro Morgannwg.

Mynegodd y Fforwm ei werthfawrogiad o wasanaeth a gwaith Mr Teague ers 2010 a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

(b) Cofnodion -

CYTUNWYD - Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

(c) Adroddiad Blynyddol Cyfansawdd Fforwm Mynediad Lleol 2019/20 a 2020/21 -

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Adroddiad Blynyddol Cyfansawdd drafft 2019/20 a 2020/21 i'w hystyried. Roedd hyn yn cwmpasu dwy flynedd ddinesig oherwydd effaith pandemig Covid-19 a olygai na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn ystod 2020.

CYTUNWYD - Bod Adroddiad Blynyddol Cyfansawdd 2019/20 a 2020/21 Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi.

(d) Adroddiadau Cynnal a Chadw -

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am waith cynnal a chadw a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gosod 45 giât mochyn i gymryd lle camfeydd
- Gosod 15 giât Dau mewn Un
- 8 camfa wedi'u hatgyweirio
- Adeiladu 5 pompren newydd

- 35 km o lystyfiant wedi'i glirio o lwybrau cerdded

Yn ogystal, roedd y tîm HTC wedi derbyn 75 o adroddiadau arolygu.

CYTUNWYD – Y nodir yr adroddiad cynnal a chadw.

(e) Diweddariadau ar Orchmynion Cyfreithiol ac Addasu ar sail Tystiolaeth

Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y Gorchmynion Cyfreithiol a'r Gorchmynion Addasu ar draws Bro Morgannwg.

Dywedodd Mrs. S. Thomas fod Gorchmynion Cyfreithiol ar gyfer y llwybr ar Fferm Darren wedi'u cwblhau, yn ogystal â'r un ar gyfer Dinas Powys. Yn ogystal, roedd Llwybr Rhif 15 yn Llancarfan wedi bod yn destun gorchymyn dargyfeirio gan fod hyn wedi bod dan ddŵr ers nifer o fisoedd.

O ran gorchmynion addasu tystiolaethol, rhoddodd Mr. Teague y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

<u>Cyf</u>	<u>Lleoliad</u>	<u>Y Sefyllfa Bresennol</u>
1	Clive Rd i Ynys Rd, Y Barri	Segur
12	Tŷ Fferm y Pentref, Tregolwyn	Segur
13	Dyfan Rd i Caradoc Ave, Y Barri	Wedi Cwblhau'r Ymchwiliad
14	Coleg yr Iwerydd, Sain Dunwyd	Ymroddiad y llwybr a gynigir
15	Er Efail, Troes	I'w ymchwilio
20	Lôn y Felin, Trebefered	Dan ymchwiliad
17	Clos Cwm Barri, Y Barri	Dan ymchwiliad
18	Robins Close, Y Barri	I'w ymchwilio

Cadarnhaodd Mr. Teague fod y gorchymyn ar gyfer Coleg yr Iwerydd, Sain Dunwyd, yn ganlyniad i'r llwybr nad oedd yn cael ei gofnodi.

Cytunwyd - Nodi'r adroddiad.

(f) Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles yng Nghymru (GANaLI) –

Derbyniodd y Fforwm y wybodaeth ddiweddaraf am astudiaeth ddichonoldeb Llwybrau Gwyrdd GANaLI, ac roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithredu fel partner arweiniol ar ei gyfer o'r blaen mewn cydweithrediad rhanbarthol ar gyfer datblygu cynllun i sefydlu gwell cysylltiadau llwybrau ceffylau drwy siroedd Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr.

Nod y prosiect Llwybrau Gwyrdd oedd treialu'r gwaith o ddarparu rhwydwaith cydlynol o goridorau gwyrdd yn rhanbarth Canol De Cymru at ddibenion gwella mynediad i lwybrau ceffylau a chysylltedd cynefinoedd. Mae'r prosiect hefyd yn ystyried mesurau ariannol ac ymarferol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y rhwydwaith hwnnw.

Amcanion y prosiect oedd:

1. Darparu cyfleoedd mynediad diogel i ddefnyddwyr ceffylau a beiciau

2. Sefydlu systemau rheoli cynaliadwy sy'n gwella gwydnwch ecolegol
3. Animeiddio cymunedau a sefydlu strwythurau cysylltiol ar lefel ranbarthol.
4. Ymgymryd â dichonoldeb ar gyfer datblygu cyfleuster porth a fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor.

Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu fel y partner arweiniol ymhlith cydweithrediad y partneriaid canlynol:

Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr:

Awdurdod priffyrdd ar gyfer y sir berthnasol.

Awdurdod cymwys ar gyfer creu, gwella a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Cyngor Bro Morgannwg:

Awdurdod priffyrdd ar gyfer y sir berthnasol.

Awdurdod cymwys ar gyfer creu, gwella a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Cyngor Dinas Caerdydd:

Awdurdod priffyrdd ar gyfer y sir berthnasol.

Awdurdod cymwys ar gyfer creu, gwella a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Cyngor Rhondda Cynon Taf:

Awdurdod priffyrdd ar gyfer y sir berthnasol.

Awdurdod cymwys ar gyfer creu, gwella a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Cyngor Merthyr Tudful:

Awdurdod priffyrdd ar gyfer y sir berthnasol.

Awdurdod cymwys ar gyfer creu, gwella a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus.

Cymdeithas Ceffylau Prydain:

Cysylltu a chydgyssylltu sylfaen defnyddwyr (marchogion ceffylau) ar gyfer gweithgareddau animeiddio a gwirfoddolwyr.

Cyngor ar safonau llwybrau.

Sustrans:

Cydgysylltu cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru

Cymorth gyda hyrwyddo, marchnata a rhwydweithiau defnyddwyr

Cycling UK:

Cysylltu a chydgyssylltu sylfaen defnyddwyr (beicwyr) ar gyfer gweithgareddau animeiddio a gwirfoddolwyr.

Arbenigedd mewn datblygu llwybrau beicio pellter hir blaenorol.

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru:

Cysylltu a chydgyssylltu gweithgareddau gwirfoddolwyr.

Rôl ymgynghorol mewn perthynas â gweithgareddau ecolegol.

Gwnaeth Mr F. Coleman sylwadau ar y cyllid grant, gan ddweud bod y rhan fwyaf o'r arian, mae'n debyg, at ddibenion asesu, ymchwil a chynllunio. Ychwanegodd Mr Coleman, gan y byddai'r prosiect yn cael ei reoli gan Fro Morgannwg,

oherwydd y pellteroedd dan sylw, y byddai llawer o amser ac ymdrech gan Swyddogion, er enghraifft siarad â thirfeddianwyr mewn ardaloedd ymhell i ffwrdd. Mewn ymateb, dywedodd Mr. Teague fod y prosiect eisoes wedi bod yn rhedeg ers 2 flynedd, a bod perthynas dda wedi'i hadeiladu gyda'r holl Awdurdodau Lleol partner felly byddai disgwyl help a chymorth lleol. Roedd y Swyddog Maes wedi bod yn gweithio gyda phob un o'r Timau Hawliau Tramwy unigol hynny i edrych ar bryderon, felly roedd rhan o sefydlu hyn wedi bod yn nodi manau lle gallwn storio cit yn yr awdurdodau eraill.

O ran seiliau y gallai Swyddogion weithredu ohonynt i osod strwythurau newydd, byddai'r gwaith hwnnw hefyd yn cael ei rannu rhwng y gwahanol sefydliadau partner.

O ran y dadansoddiad o'r hyn y byddai'r arian grant yn cael ei wario arno, dywedodd Mr. Teague fod hyn i gyd yn dod o dan y gyllideb referniw, ond roedd swm sylweddol ar gyfer gwaith safle a gwelliannau. Ychwanegodd Mr Teague mai dyma sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhannu'r gwahanol gostau, felly roedd swm sylweddol ar gyfer y broses asesu. Byddai Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ble y byddai'r arian yn cael ei wario gan eu bod wedi derbyn copiâu o'r astudiaeth ddichonoldeb ac fe'i gwnaed yn glir lle byddai strwythurau newydd yn cael eu gosod.

Gofynnodd Mr. Gaffney, gan bod cyllid wedi'i ddarparu hyd at 2023, ai dyna oedd dyddiad cwblhau'r prosiect. Fel ymateb, dywedodd Mr. Teague fod 2023 yn nodi diwedd Cam 1. Y tu hwnt i hynny roedd gobaith y câi'r prosiect ei gynnal drwy ffynonellau cyllid amgen. Er enghraifft, cafodd astudiaeth o ddichonoldeb ei chomisiynu i edrych ar gynhyrchu incwm o barc beicio ger Lecwydd. Y gobaith oedd y byddai'r cyfleuster hwn yn gweithio fel porth i ddenu mwy o bobl i mewn i'r llwybr.

Yn nhermau gwaith ar y cyd ledled Cymru gyfan, dywedodd Mr. Teague fod y grant cyffredinol gan Lywodraeth Cymru yn sylweddol iawn, gyda'r cyllid yn gysylltiedig â thema gweithio ar y cyd. Roedd nifer o prosiectau tebyg yn digwydd mewn rhanbarthau eraill, yn ogystal â phrosiectau cenedlaethol. Er enghraifft, o dan yr un cyllid, rhoddwyd arian i Gymdeithas y Crwydrwyr i edrych lle y gallai llwybrau a cherdded helpu'r rhaglen lles ac roeddent wedi cynnal ymgynghoriad ar hyd a lled Cymru er mwyn ceisio creu cyfleoedd i'r gwirfoddolwyr fynd allan a gwella llwybrau o gwmpas cymunedau roeddent wedi'u dewis.

Cytunwyd - Nodi'r adroddiad diweddarau.

(g) Grant Gwella Mynediad -

Darparodd Mr. Teague ddiweddariad ar y Grant Gwella Mynediad. Diben y grant oedd cefnogi gwella mynediad at neu ar rwydwaith yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a manau gwyrdd.

Roedd cynnig o £62,098 o gyllid yn perthyn i gyfnod o 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022 wedi'i wneud i'r Cyngor i wneud gwaith a nodir yn yr atodlen isod.

Teitl y prosiect	Disgrifiad o'r prosiect	Lleoliad
Fferm Tŷ Newton	Gwella'r arwyneb er mwyn datrys draenio gwael a mwd	Y Bont-faen
Seilwaith Graddfa Fach	Caffael a gosod citiau dodrefn	Ledled y sir
Llwybr cerdded 31 Porthceri	Cwblhau'r ail-wynebu ar Llwybr Cerdded 31 yng Nghwm Barri.	Parc Porthceri
Llwybrau Golwg y Stryd	Cipio, golygu a lanlwytho llwybrau a hyrwyddir i olwg y stryd	Llwybrau Llwybrau'r Fro a hyrwyddir
Llwybr Estyll Porthceri	Gosod deunyddiau llwybr estyll a brynwyd yn 20-21	Parc Porthceri
Ardwyn	Darparu arwyneb wedi'i led rymo a chanllaw	Dinas Powys
Llwybr Mynwent Llanilltud	Ymestyn arwyneb ultitrek ar hyd llwybr cerdded 42 (y tu allan i berimedr y fynwent)	Llanilltud Fawr
Llwybr Ysgol Llanilltud	Darparu arwyneb ar y llwybr cyswllt i'r ysgol ar hyd y nant	Llanilltud Fawr
Anomaleddau	Dileu problemau alinio lle y mae'r map a'r tir yn wahanol	Ledled y sir

CYTUNWYD - nodi'r adroddiad.

(h) Grant Mynediad at yr Arfordir -

Rhoddodd Mr. Teague ddiweddariad ar y Grant Mynediad at yr Arfordir, gan ddweud bod cynnig o £111,863 wedi'i wneud, gan gynnwys £104,863 ar gyfer cynnal a chadw a gwella Llwybr Arfordir Cymru (75% o gyfanswm y gost) a £7000 arall i ail-alinio'r llwybr (100% o'r costau).

Roedd y Rhaglen Wella'n cynnwys yr eitemau canlynol:

Rhif prosiect	Lleoliad	Grant	Disgrifiad y Project
1	Larnog	22500	Mae arwyneb y llwybr wedi'i sgwrio gan y glaw, mae angen rhoi arwyneb wedi'i selio a draenio yn ei le er mwyn rhyng-gipio dŵr ffo o'r caeau. Mae Cyngor Sir Bro Morgannwg wedi ymrwmo 45 mil i'r cynllun yn ystod 21/22
2	Silstwn - Pyllau	8813	Walls Pool - Silstwn Darparu 35 metr o lwybr estyll i oresgyn darn mwdlyd a achoswyd gan dir gwlyb.
3	Ail-alinio Sain Dunwyd	3500	Ail-alinio Sain Dunwyd: Ail-alinio'r llwybr i ddilyn y llinell a gerddir

4	Tŷ Haf	2500	Mae tandorri'r llwybr bellach yn golygu bod rholio'n ôl yn hanfodol, daethpwyd ar draws anawsterau gyda'r tîrfeddiannwr
5	Llwybr estyll Trwyn yr As	3375	Llwybr estyll Trwyn yr As (Dwyrain): Darparu 15 metr o lwybr estyll i wella darn mwdlyd o'r llwybr
6	Llwybr Estyll Porthceri	10500	Prosiect wrth Gefn (Porthceri) - Prynu deunyddiau er mwyn darparu 60 metr o lwybr estyll
7	Yr As Fawr	29531	Gwella'r cwlfwr, yr hyn sydd o'i gwmpas a llwybr mynediad at lwybr yr arfordir a'r cwlfwr. Mae'r prosiect yn gysylltiedig â chytundeb cyfreithiol a ddaeth i ben yn 2017-18 a bydd yn mynd i'r afael â difrod gan storom i'r llwybr pan oedd o dan reolaeth oddefol o'r blaen, gorlifo'r llwybr drwy'r ffordd fynediad. Dylid cynllunio gwaith gwella i ddechrau yn Ch3 neu 21-22 er mwyn cymryd y tywydd a thymor brig y twristiaid i ystyriaeth. Gwaith i sicrhau awdurdodau angenrheidiol, diwygio dyluniad a chaffael yn ystod 20/21.
8	Gwrthgloddia u	10594	Yn llithrig iawn ar y graddiant i fyny ac i lawr y llethr - mynediad gyda grisiau a chanllaw. Bydd y dylunio a'r awdurdodau yn ystod 19-20 (heneb a restrwyd), bydd gwaith ar y tir yn ystod 20-21. Rydym wedi archwilio'r safle gyda'r swyddog CADW ac ar sail ei gyngor rydym wedi cael asesiad archeolegol wedi'i wneud, a gafodd ei ddychwelyd tua Nadolig 19/20. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn caniatáu i ni symud ymlaen gyda chynllun o dan friff gwyllo. Hyd yn hyn rydym wedi trafod darparu llwybr dyrchafedig sy'n sownd wrth y ddaear a bydd hyn yn destun cyngor gan beiranyddion draenio a chais SDCau.
9	Tresilian (prosiect 2 flynedd)	1000	Collwyd darn o lwybr oherwydd clogwyn yn syrthio yn y blynyddoedd blaenorol a darparwyd gwyrriad anffurfiol o'i gwmpas. Mae'r tîrfeddiannwr wedi nod ei fod yn bwriadu cau'r llwybr anffurfiol ac felly bellach mae angen sicrhau y diogelir yr aliniad cyfreithlon. Mae swm yr iawndal yn hapfasnachol yn seiliedig ar werth y tir a cholled y gellir ei gyfrifo. Os bydd y perchennog yn parhau gyda'i fygythiadau i gau'r llwybr bydd hyn yn mynd yn orchymyn yn hytrach na chytundeb ac mae'n bosibl y bydd y gyfradd iawndal yn amrywio ar y pwynt hwnnw.
Cynnal a chadw	Cynnal a Chadw	19550	Cynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru

CYTUNWYD - nodi'r adroddiad.

(i) Cyngor ar Ddiwygio Mynediad CNC: Diweddariad Briffio -

Dywedodd Mr Teague fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am dair ardal ddiwygio Grŵp 1 yn eu Rhaglen Diwygio Mynediad. Byddai hyn yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn mewnbynnu

i'r cyngor drwy grwpiau cyswllt ac ymgynghorol. Roedd y cyngor terfynol i'w ddarparu i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2022.

Roedd y Rhaglen Diwygio Mynediad yn cynnwys cynigion i adolygu deddfwriaeth ar fynediad. Ar ôl ei hymgyngoriad yn 2017 am y diwygiadau, grwpiodd y Llywodraeth y cynigion fel a ganlyn:

Grŵp 1 - cynigion diwygio nad ystyriwyd eu bod yn ddadleuol gan randdeiliaid

Grŵp 2 - cynigion diwygio sy'n gofyn am ystyriaeth a chyngor mwy manwl

Grŵp 3 - cynigion diwygio sy'n perthyn i fynediad at ddŵr mewndirol (nid yw'n cael ei ystyried yn y briffiad hwn)

Ar gyfer 2021/22, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i CNC roi cyngor am y diwygiadau deddfwriaethol Grŵp 1 canlynol:

- Adolygiadau mapio mynediad agored Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
- Rolau a chyfrifoldebau'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI)
- Gorfodi bod cŵn ar denyddau

CYTUNWYD - Nodi'r diweddariad.

(j) Dylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy-

Rhoddodd Mr. Teague drosolwg o Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, oedd â'r bwriad i gefnogi ffermwyr i fod yn arweinwyr y byd o ran cynhyrchu bwyd cynaliadwy.

Byddai'r cynllun yn helpu ffermwyr i ffynnu wrth gynhyrchu bwyd cynaliadwy mewn ffordd sy'n cyflawni nifer o ganlyniadau Rheoli Tir Cynaliadwy, pob un â buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Roedd mynediad ac ymgysylltu gwell yn ganlyniad pwysig o'r cynllun.

Amlinellwyd y byddai Ffermwyr yn bodloni eu holl rwymedigaethau cyfreithiol o ran cynnal a chadw Hawliau Tramwy i hawlio taliad ffermio cynaliadwy. Gallai sicrhau cydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon gynnwys defnyddio cynlluniau sefydledig yr awdurdod lleol a oedd yn galluogi defnyddwyr hamdden i adrodd am broblemau. Gan fod dwy ran o dair o Hawliau Tramwy ar ffermdir, roedd gwella Hawliau Tramwy presennol, y tu hwnt i ofynion cyfreithiol, yn ffordd i ffermwyr gyfrannu ymhellach i iechyd a ffyniant Cymru, tra hefyd yn rhoi mwy o fynediad at ddiwylliant a threftadaeth ardaloedd gwledig. Byddai'r cynllun yn cefnogi ffermwyr i:

- uwchraddio llwybrau cerdded i lwybrau aml-ddefnydd (dim ond 21% o Hawliau Tramwy sy'n hygyrch i feicwyr a marchogion)
- gwella llwybrau presennol drwy welliannau arwyneb a dodrefn, draenio, pomprennau, arwyddion ayyb., i'w gwneud yn fwy hygyrch
- sefydlu llwybrau a llwybrau mynediad cydgysylltiedig a newydd
- sefydlu mynediad newydd, yn seiliedig ar flaenoriaethau a restrir yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy lleol.

Nod y cynllun oedd cynyddu cyfradd yr Hawliau Tramwy a oedd ar agor, yn hawdd eu defnyddio gyda digonedd o arwyddion. Gallai taliad gynnwys ad-daliadau ar gyfer unrhyw gostau uwchraddio, er enghraifft, trawsnewid o gamfeydd i giatiau, llafur am eu gosod neu ddefnyddio contractwyr.

Dywedodd Mr F Coleman bod yn rhaid i awdurdodau gyfrannu llai na chwarter o'r treuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol pan fo tiffeddianwyr yn gofalu am eu llwybrau cerdded. Gofynnodd a oedd yn gywir i ddweud bod y Fro yn debygol o fynd y tu hwnt i hynny o ran darparu pob math o seilwaith. Fel ymateb, dywedodd Mr. Teague fod hyn yn rhan o'r Ddeddf Priffyrdd, a oedd yn golygu, fel arfer, y byddai awdurdodau'n darparu rhwng 25% a 100% o'r costau. Byddai hyn yn cael ei wneud ar ran tiffeddianwyr, a fyddai'n cadw atebolrwydd a chyfrifoldeb dros y strwythurau hynny. Yn ymarferol ac ar gyfer y Fro, yn dibynnu ar ba waith oedd yn ofynnol, fel arfer byddai'r Cyngor yn darparu llawer mwy na 25%. Fel arfer, byddai'r Cyngor yn darparu'r deunyddiau er mwyn i dirfeddianwyr osod eu hunain, neu lle y bo angen byddai'r Cyngor yn gwneud y gwaith gosod.

Yna cyfeiriodd Mr. F. Coleman at y gwaith o uwchraddio'r llwybrau i rai aml-ddefnydd, a oedd hefyd yn berthnasol i'r gwaith ar lwybrau GANaLI a llwybrau Gwyrdd sy'n cael ei wneud. Gofynnodd Mr Coleman a oedd hyn yn creu gwrthdaro rhwng y mathau gwahanol ar ddefnyddwyr. cyflymder defnyddwyr gwahanol a'r mater o draul, er enghraifft, gyda cheffylau a beicwyr yn ogystal â cherddwyr yn defnyddio'r un llwybrau. Dywedodd Mr. Colemans fod hyn yn rhywbeth y gwnaed yn fach ohono yn ôl pob golwg. Gofynnodd sut yr eir i'r afael â'r angen i osgoi gwrthdaro rhwng defnyddwyr gwahanol. Fel ymateb, dywedodd Mr. Teague, mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, mae hynny'n debygol o fod yn rhywbeth i dynnu sylw Llywodraeth Cymru ato. Yn nhermau prosiectau a wnaed gan y Cyngor, bu'r Team Hawliau Tramwy Cyhoeddus allan o wneud unrhyw waith arolygu. Felly, ble bynnag y bo modd, roedd y Cyngor wedi ceisio sicrhau bod y llwybrau a ddewiswyd or fath gymeriad y gallant ymdopi â'r traffig ceffylau cywir. Lle nad oedd llwybrau'n briodol byddai'r darnau hynny'n cael eu nodi fel rhai y mae angen gwelliannau i'r arwyneb arnynt.

Roedd y Fforwm yn awyddus i wrthdaro rhwng mathau gwahanol ar ddefnyddwyr gael ei anfon fel adborth fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd y Fforwm hefyd yn dymuno tynnu sylw at yr awgrym bod safon yn cael ei ymgorffori ynglŷn â thalu ffermwyr i helpu i barhau i gynnal a chadw llwybrau Hawliau Tramwy. Yn ogystal, roedd y Fforwm am dynnu sylw at bwysigrwydd strategaeth ymadael i'w dyfeisio ar gyfer pan y deuai'r cyllid i ben, gan fod dim byd i rwystro tiffeddianwyr rhag dileu hawliau mynediad wrth i'r cyllid ddod i ben.

CYTUNWYD - Bod barn y Fforwm Mynediad lleol yn cael eu trosglwyddo i'w hystyried ymhellach.